Adran Gwaith
a Phensiynau

# Sut i wneud cais am **Fenthyciad Trefnu**

**Hawdd ei Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **BL2ER 05/22**

# Cynnwys


1




**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2



**Sut i wneud cais**

Tudalen 6

3




**Ar ôl i chi wneud cais**

Tudalen 11

4




**Cael arian eich benthyciad**

Tudalen 15

# Cynnwys


5




**Os ydych yn anghytuno â'n penderfyniad**
Tudalen 18

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae **Benthyciad Trefnu** yn arian y gallwch ei gael gan Adran Gwaith a Phensiynau.




Oherwydd ei fod yn fenthyciad, mae rhaid i chi dalu'r arian hwn yn ôl.

Mae benthyciadau trefnu yn cael eu had-dalu o'ch budd-daliadau.



Mae'r benthyciad i helpu i dalu am bethau neu wasanaethau hanfodol.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych:

- Sut i wneud cais
- Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi wneud cais
- Sut i roi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau.



Mae hefyd yn dweud wrthych beth gallwch ei wneud os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad.

Am fwy o wybodaeth hawdd ei darllen ar **Fenthyciadau Trefnu**, ewch i: www.gov.uk Chwiliwch am Budgeting Loans Easy Read.

# 2 Sut i wneud cais




Gallwch wneud cais am Fenthyciad Trefnu:

- ar-lein
- trwy'r post.




Cewch benderfyniad cyflymach ar eich Benthyciad Trefnu trwy wneud cais ar-lein.

I wneud cais ar-lein, ewch i: www.gov.uk/benthyciadau-trefnu/gwneud-cais a dewis 'Gwneud cais ar-lein'.




Ar ôl i chi wneud cais, bydd Adran Gwaith a Phensiynau yn anfon:

- e-bost
- neges destun, neu
- lythyr.




Dylech gael eich penderfyniad yn gyflymach os byddwch yn dewis neges destun neu ebost.

## Gwneud cais trwy'r post




Gallwch wneud cais am Fenthyciad Trefnu gan ddefnyddio ffurflen bapur.

I gael ffurflen SF500W, ewch i:
www.gov.uk/government/publications/budgeting-loan-claim-form.cy



Gallwch lenwi'r ffurflen SF500W ar eich cyfrifiadur, ffôn symudol, neu lechen a'i hargraffu.



Neu gallwch argraffu ffurflen wag a'i llenwi â beiro.



Cofiwch lofnodi eich ffurflen gyda beiro cyn i chi ei phostio.



Mae ble rydych yn postio'ch ffurflen brintiedig yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw yn y wlad.

I ddarganfod y cyfeiriad post cywir ar gyfer ble rydych yn byw, ewch i:
[www.gov.uk/government/publications/budgeting-loan-claim-form.cy](www.gov.uk/government/publications/budgeting-loan-claim-form.cy)

# Os na allwch argraffu’r ffurflen gais



Os na allwch argraffu ffurflen gais, gallwch ofyn i **Linell Ymholiadau’r Gronfa Gymdeithasol** anfon ffurflen atoch.



Gallwch gysylltu â Llinell Ymholiadau’r Gronfa Gymdeithasol trwy:

Ffôn: 0800 169 0240

Ffôn testun: 0800 169 286



Saesneg: 0800 169 0140



Os na allwch glywed neu siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:


18001 yna 0800 169 0140

Roedd Relay UK yn arfer cael ei adnabod fel Next Generation Text (NGT).



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y byddwch yn gallu defnyddio'r Gwasanaeth Cyfnewid Fideo (a elwir yn VRS)

I ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfnewid Fideo, ewch i: www.gov.uk/benthyciadau-trefnu/gwneud-cais a dewiswch y ddolen am y Gwasanaeth Cyfnewid Fideo.



Mae llinell y Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

## 3 Ar ôl i chi wneud cais




Unwaith y byddwch wedi gwneud cais am Fenthyciad Trefnu, byddwn yn dweud wrthych a allwch gael benthyciad ai beidio.




Os gwnaethoch ofyn am benderfyniad **trwy e-bost neu neges destun**, cewch hwn o fewn 7 diwrnod.




Os gwnaethoch ofyn am benderfyniad trwy lythyr, byddwn anfon hyn o fewn 21 diwrnod.



Os gallwch gael Benthyciad Trefnu, mae angen i chi ‘dderbyn’ y penderfyniad cyn i chi gael yr arian.




Mae sut rydych yn ‘derbyn’ eich penderfyniad yn dibynnu ar sut y gwnaethoch gais.

## Os gwnaethoch gais ar-lein




Os gwnaethoch gais ar-lein, byddwch yn cael neges destun neu e-bost yn dweud wrthych beth i’w wneud.

Gallwch dderbyn eich penderfyniad ar-lein, ewch i:
[www.apply-budgeting-loan.service.gov.uk/decision/application-reference?lang=cy](www.apply-budgeting-loan.service.gov.uk/decision/application-reference?lang=cy)

# Os gwnaethoch gais trwy'r post



Os gwnaethoch gais drwy'r post, gallwch dderbyn y penderfyniad drwy lythyr.




Byddwn yn anfon llythyr derbyn atoch yn y post, ynghyd â'ch llythyr penderfyniad.



I dderbyn eich cynnig benthyciad, llofnodwch dudalen 4 eich llythyr derbyn.




Dychwelwch hwn yn yr amlen ragdaledig a ddarparwyd.





Byddwn hefyd yn anfon slip ateb ar gyfer eich llythyr derbyn. Mae angen i chi sicrhau eich bod yn ei blygu fel bod y cyfeiriad dychwelyd i'w weld yn ffenestr yr amlen.




Peidiwch ag anfon eich llythyr i'ch canolfan gwaith leol. Gallai hyn eich oedi rhag cael eich Benthyciad Trefnu.

# 4 Cael arian eich benthyciad




Unwaith y byddwch yn derbyn eich cynnig benthyciad, bydd Adran Gwaith a Phensiynau yn talu eich arian.




Byddant yn talu'r arian i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.



Mae pryd y cewch eich arian yn dibynnu ar sut y gwnaethoch dderbyn eich cynnig benthyciad.



**7**
**diwrnod**

Os gwnaethoch dderbyn y cynnig benthyciad ar-lein, byddwch yn cael eich arian o fewn 7 diwrnod.



**21**
**diwrnod**

Os gwnaethoch dderbyn y cynnig benthyciad drwy'r post, byddwch yn cael eich arian o fewn 21 diwrnod.



Os gwnaethoch roi'ch rhif ffôn symudol i ni, byddwn yn anfon neges destun atoch pan fyddwn yn talu'r arian i'ch cyfrif.

# Rhoi gwybod am newid yn eich amgylchiadau



Os bydd eich amgylchiadau'n newid, mae'n bwysig iawn dweud wrth Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted â phosibl.




Efallai eich bod yn cael trafferth ad-dalu'ch benthyciad oherwydd newid yn eich amgylchiadau ariannol.




Cysylltwch â llinell ymholiadau'r gronfa gymdeithasol i drafod hyn. Mae eu manylion cyswllt ar dudalennau 9 a 10 y llyfr hwn.

# 4 Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad



Os nad ydych yn cytuno â'n penderfyniad, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.



Efallai eich bod yn anghytuno oherwydd:

- i ni ddweud na allwch gael benthyciad, a'ch bod yn meddwl bod hynny'n anghywir
- gallwch gael benthyciad, ond nid ydych yn cytuno â'r swm.



Gallwch ysgrifennu llythyr yn dweud wrthym pam nad ydych yn cytuno â'ch penderfyniad. Anfonwch eich llythyr i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad.





**28**
**Diwrnod**

Mae rhaid i'ch cais gyrraedd o fewn **28 diwrnod** i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.



Os hoffech siarad â ni am eich penderfyniad, gallwch ffonio Llinell Ymholiadau'r Gronfa Gymdeithasol:

**0800 169 0240.**




Cewch lythyr yn dweud wrthych a yw'r penderfyniad wedi newid ai beidio, bydd yn dweud pam y gwnaethpwyd y penderfyniad.



Os ydych yn anfodlon ar y penderfyniad o hyd, gallwch ofyn i swyddfa'r **Archwilydd Achosion Annibynnol** am adolygiad.

I gysylltu â swyddfa'r Archwilydd Achosion Annibynnol, ewch i: www.gov.uk a chwilio am 'ask for a Budgeting Loan review'.

I gael rhagor o wybodaeth ar-lein, ewch i www.gov.uk/benthyciadau-trefnu